# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD**

Dyddiad ac Amser

**10.30 y.b., DYDD MAWRTH, 19EG TACHWEDD, 2019**

Lleoliad

**Siambr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon LL55 1SH**

Pwynt Cyswllt

**Sian Ellis Williams**

**01286 679666**

**sianelliswilliams@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd 13/11/19)

# PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

## AELODAETH (15)

## Plaid Cymru (8)

Y Cynghorwyr

Annwen Daniels
Charles Wyn Jones
Olaf Cai Larsen
Edgar Wyn Owen
Annwen Hughes
Linda Ann Jones
Judith Mary Humphreys
Mair Rowlands

## Annibynnol (5)

Y Cynghorwyr

John Brynmor Hughes
Dewi Wyn Roberts
Eryl Jones-Williams
Anne Lloyd Jones
Hefin Underwood

## Llais Gwynedd (1)

Y Cynghorydd Anwen J. Davies

## Annibynnol Unedig Gwynedd (1)

Y Cynghorydd Dewi Owen

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

# R H A G L E N

**1. ETHOL IS GADEIRYDD**

Ethol is gadeirydd i'r pwyllgor hwn ar gyfer 2019-20.

**2. YMDDIHEURIADAU**

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

I dderbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

**4. MATERION BRYS**

I nodi unrhyw faterion sydd yn faterion brys yn nhyb y Cadeirydd er mwyn eu hystyried.

**5. COFNODION** 5 - 7

Bydd y Cadeirydd yn cynnig bod cofnodion cyfarfod diwethaf y pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 4/9/19 yn cael eu harwyddo fel cofnod cywir o'r cyfarfod.

**6. CYDNABYDDIAETH ARIANNOL I AELODAU ETHOLEDIG** 8 - 9

Adrodd ar wybodaeth Adroddiad Blynyddol y Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

**7. CYFATHREBU A THECHNOLEG** 10 - 13

Cyflwyno diweddariad o'r gwaith er mwyn gwella y ddarpariaeth i gyfathrebu trwy ddefnydd technoleg

**8. ADRODDIADAU BLYNYDDOL AELODAU ETHOLEDIG 2018/19** 14 - 17

Cyflwyno gwybodaeth am Adroddiadau Blynyddol Aelodau Etholedig (2018/19) a gyhoeddwyd a'r gwelliannau sydd wedi eu gwneud i'n prosesau.

**9. IS-GRWP AMRYWIAETH** 18 - 21

Cyflwyno diweddariad ar waith yr is-grŵp Amrywiaeth i aelodau'r Pwyllgor a gofyn am sylwadau ar y rhaglen waith ddrafft.

**10. DARPARIAETH DYSGU A DATBLYGU I AELODAU** 22 - 27

Rhoi trosolwg o'r ddarpariaeth *Dysgu a Datblygu* i Aelodau, gan amlygu llwyddiannau, sialensiau a datblygiadau

**11. YMDDYGIAD BYGYTHIOL YN ERBYN CYNGHORWYR** 28 - 29

Cyflwyno canllawiau diweddaraf Cymdeithas Llywodraeth Cymru (CLIC) "Canllaw'r Cynghorwyr i drafod bygwch".

# PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD 9/4/19

**YN BRESENNOL:** Anne Lloyd Jones (Is-Gadeirydd)

**Y Cynghorwyr:** Annwen Hughes, John Brynmor Hughes, Charles Wyn Jones, Olaf Cai Larsen, Judith Mary Humphreys a Edgar Wyn Owen

**SWYDDOGION:** Geraint Owen (Pennaeth Adran Cefnogaeth Gorfforaethol), Vera Jones (Rheolwr Aelodau - Gwasanaeth Democrataidd) a Sion Owen (Swyddog Cefnogi Aelodau)

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorwyr Annwen Daniels, Anwen J. Davies, Linda Ann Jones, Dewi Owen, Dewi Wyn Roberts a Eryl Jones-Williams

**1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

**2. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o’r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 12 Chwefror 2019 fel rhai cywir.

**3. CYDNABYDDIAETH ARIANNOL I AELODAU ETHOLEDIG**

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd ei hadroddiad gan nodi argymhellion terfynol y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol, gan atgoffa fod cynigion drafft y Panel wedi eu cyflwyno i’r pwyllgor yn ei gyfarfod ar 25ain Hydref 2018. Ychwanegodd fod y Panel wedi penderfynu peidio â gosod lefelau gwahanol o gydnabyddiaeth bellach, gan nad oedd unrhyw awdurdodau yn defnyddio’r lefelau gwahanol. Nododd fod cyflog sylfaenol Aelodau wedi ei godi o £268 (1.97%), gyda chyflogau’r Arweinydd, Dirprwy Arweinydd ac Aelodau’r Weithrediaeth yn codi £800 yn cynnwys y codiad sylfaenol o £268. ‘Roedd lefelau'r uwch gyflogau eraill yn codi yn unol â’r codiad yn y cyflog sylfaenol yn unig. ‘Roedd y Panel wedi nodi fod y nifer oedd yn hawlio ad-daliad o gostau gofal wedi parhau i fod yn isel, gan annog y sawl oedd yn gymwys i’w hawlio. Pwysleisiodd ei fod yn bosib i unrhyw aelod wrthod y cynnydd yn y cyflog trwy hysbysu’r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn ysgrifenedig.

Sylwadau yn codi o’r drafodaeth:
- Ei fod yn bwysig fod pawb yn ymwybodol mai'r Panel oedd yn osod lefelau’r cyflog, nid y Cyngor.
- Nad oedd hyrwyddo’r ad-daliadau o gostau gofal i’r rhai oedd y gymwys yn dasg hawdd. Serch hynny ‘roedd yn bwysig fod argaeledd yr ad-daliad wedi ei hyrwyddo cyn etholiadau er mwy annog amrywiaeth ymysg ymgeiswyr.
- Ei fod yn ddatblygiad positif fod cyflog Cadeirydd y Cyngor wedi ei gynyddu i’r un lefel a chadeiryddion eraill Pwyllgorau’r Cyngor yn dilyn penderfyniad y Panel i beidio rhoi dewis o ran lefelau cyflog.

Mewn ymateb nododd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd fod hawliadau ar gyfer ad-daliadau costau gofal yn cael eu hadrodd yn unigol yn y gorffennol, ond bod y Panel wedi rhoi'r hawl i gynghorau gyhoeddi cyfanswm yr hawliadau er mwyn atal stigmateiddio’r sawl oedd wedi hawlio. Gan mai 2018/19 oedd y cylch adrodd cyntaf ers

i'r Panel gyflwyno'r newid 'roedd hi'n rhy gynnar i weld a oedd y newid wedi cael effaith a dangos cynnydd o'r nifer isel oedd wedi hawlio ad-daliad costau gwarchod. Ychwanegodd y byddai'n trefnu i osod taflen yn nhyllau colomen yr holl aelodau i hyrwyddo'r ad-daliad.

## 4. RHAGLEN WAITH DDRAFFT 2019/20

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd gan y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd, gan nodi fod y rhaglen waith yn cael ei gyflwyno yn dilyn cais yn y drafodaeth ar resymoli nifer cyfarfodydd yng nghyfarfod 2 Chwefror 2018 o'r Pwyllgor hwn. Gan fod nifer cyfarfodydd y Pwyllgor wedi eu rhesymoli 'roedd yn bwysig defnyddio'r amser oedd ar gael i'r Pwyllgor yn effeithiol. Ychwanegodd fod y rhaglen waith yn parhau i fod yn ddibynnol ar fewnbwn yr aelodau wrth gynnig eitemau, gymaint os nad mwy na mewnbwn swyddogion.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth:

- Fod angen dod o hyd i ffyrdd o gynyddu defnydd yr aelodau o'r Porth Aelodau.
- Fod y Porth yn ddefnyddiol iawn, ond ei fod yn anodd cael mynediad ac 'roedd yn anodd gweld pam fod angen cyfrinair i gael mynediad at y wybodaeth oedd wedi ei gynnwys.
- Fod y rhaglen waith arfaethedig yn denau, ac y byddai trafod Calendr Pwyllgorau'r Cyngor yng nghyfarfod Ebrill yn debygol o fod yn rhy hwyr yn y flwyddyn.

Mewn ymateb nododd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd fod y Porth Aelodau wedi ei greu yn dilyn derbyn adborth gan aelodau yn y cyfnod oedd yn arwain at etholiad 2017 er mwyn darparu gwybodaeth yn fwy effeithiol. Cydnabu fod y nifer o ddefnyddwyr wedi bod yn isel, ac er bod yr adborth oedd wedi ei dderbyn am y Porth yn nodi fod y wybodaeth oedd wedi ei gynnwys yn ddefnyddiol 'roedd yn anodd ei ddefnyddio. 'Roedd trafodaethau mewnol wedi eu cynnal er mwyn gwella'r platfform oedd yn cynnal y Porth ac y byddai lleihau'r nifer o dudalennau mewngofnodi i'r nifer lleiaf oedd yn cydymffurfio gyda chanllawiau diogelwch yn rhan o'r gwaith. Byddai adroddiad ar gynnydd y gwaith yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod Tachwedd 2019 o'r Pwyllgor hwn.

## 5. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PENNAETH GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yr adroddiad oedd i'w gyflwyno i'r Cyngor yn ei gyfarfod ar Fai 2, 2019. Nododd ei fod yn ymgais ar greu adroddiad mwy cryno, gan ganolbwyntio ar waith datblygol y flwyddyn. Ychwanegodd fod datblygiadau technolegol yn debygol o fod yn rhan anorfod o waith y Pwyllgor, o ystyried cyflymder datblygiadau yn y maes. Cyfeiriodd hefyd at lefel isel presenoldeb aelodau mewn sesiynau rhannu gwybodaeth. 'Roedd bwriad hefyd gan y Gwasanaeth Democratiaeth i gynorthwyo'r is-grŵp o'r Pwyllgor hwn i ail-afael ar waith Amrywiaeth mewn Democratiaeth. Pwysleisiodd hefyd yr angen i gynnal deialog barhaus rhwng aelodau etholedig a swyddogion er mwyn llunio gwasanaeth oedd yn cyfarch eu hanghenion.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth:

- Yn dilyn y cyfeiriad at bresenoldeb aelodau mewn cyfarfodydd rhannu gwybodaeth gofynnwyd a oedd gwaith ymchwil wedi ei wneud i ddadansoddi'r sefyllfa?
- Oedd unrhyw sail i ymdeimlad fod rhai cyfarfodydd yn cael eu cynnal oherwydd eu bod wedi eu rhaglennu yn hytrach nag oherwydd bod materion o bwys angen eu trafod?
- Fod rôl i'r grwpiau gwleidyddol i sicrhau gwell lefel presenoldeb
- Fod peryg i achosi gwrthdaro rhwng annog neu orfodi aelodau i fynychu cyfarfodydd ac amcanion amrywiaeth mewn democratiaeth y Pwyllgor, trwy olygu

ei fod yn llawer haws i unigolion oedd yn agos at oed ymddeol i fod yn bresennol mewn cyfarfodydd oherwydd bod ganddynt lai o gyfrifoldebau gwaith a theuluol i alw ar eu hamser.

- Oedd amseroedd cynnal cyfarfodydd yn cael effaith ar lefel presenoldeb?
- Oedd patrwm o ran mynychu cyfarfodydd pwyllgorau ac agosatrwydd at etholiadau?
- Oedd hi'n bosib gosod rheolau o ran aelodaeth pwyllgorau ar aelodau?

Mewn ymateb nododd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd fod presenoldeb aelodau wedi bod yn destun trafod mewn gweithgor oedd yn trafod y drefn Craffu, ac y byddai angen arbrofi er mwyn canfod dulliau effeithiol o rannu gwybodaeth gyda'r aelodau. Ychwanegodd fod gallu aelodau i fynychu cyfarfodydd yn fater y byddai'n fuddiol i'r is-grŵp Amrywiaeth mewn Democratiaeth fod yn ymwybodol ohono wrth wneud eu gwaith, er mwyn iddynt ystyried datrysiadau posib.

Nododd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd nad oedd yn statudol bosib i osod gorfodaeth ar aelodau i fod yn aelodau o bwyllgorau , ond ei bod yn bosib cynnig anogaeth a bod y mater wedi ei godi yng Ngrŵp Busnes y Cyngor. 'Roedd bwriad i symud tuag at system o gynnal cyfarfodydd anffurfiol fyddai'n adrodd yn ôl i gyfarfodydd pwyllgorau ffurfiol.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30 y.b. a daeth i ben am 11.20 y.b.

**CADEIRYDD**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATIAETH |
| **DYDDIAD** | 19 TACHWEDD, 2019 |
| **PWNC** | CYDNABYDDIAETH ARIANNOL I AELODAU ETHOLEDIG |
| **PWRPAS** | Adrodd ar wybodaeth Adroddiad Blynyddol y Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol. |
| **ARGYMHELLIAD** | Gofynnir i Aelodau'r Pwyllgor:<br>• Ystyried unrhyw sylwadau y maent yn dymuno eu cyflwyno fel ymateb i'r ymgynghoriad ar gydnabyddiaeth ariannol<br>• Ystyried sut i hyrwyddo'r broses o hawlio ad-daliadau gofal. |
| **AWDUR** | Vera Jones, Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd |

**CEFNDIR**

1. Mae adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (Chwefror 2020) wedi ei gyhoeddi ar ffurf drafft ar y 15fed o Hydref, 2019. Cyflwynir yr adroddiad i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth er mwyn cyflwyno sylwadau fel sail i ffurfio ymateb i'r ymgynghoriad drafft gan y Panel. Mae angen ymateb i'r ymgynghoriad erbyn 10fed o Ragfyr, 2019. Gweler gyswllt i'r adroddiad llawn dan y ddolen isod.

Adroddiad Blynyddol Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol – Chwefror 2020

**PRIF FATERION**

2.1 Mae'r prif bwyntiau sy'n deillio o'r adroddiad fel a ganlyn:

- Cynnydd o £350 yn y cyflog blynyddol sylfaenol i'r holl Aelodau etholedig (codi o £13,868 i £14,218 – cynnydd o 2.5%) o Ebrill 2020.

- Ni fydd unrhyw godiad ychwanegol yn cael ei dalu i ddeiliaid swyddi uwch-gyflogau yn 2020. Mewn geiriau eraill bydd cyflog Arweinydd, Dirprwy Arweinydd, Aelodau'r Weithrediaeth, Cadeiryddion Pwyllgorau (sy'n derbyn cydnabyddiaeth) ac Arweinydd yr Wrthblaid fwyaf yn derbyn cynnydd i'r tâl sylfaenol yn unig (hynny yw cynnydd o £350 yn unig).

- Mae'r cyflog ar gyfer y Pennaeth Dinesig a'r dirprwy bennaeth dinesig wedi ei osod ar yr un raddfa a llynedd, gyda'r cynnydd i'r tâl sylfaenol yn unig.

2.2 Fel sy'n cael ei adrodd yn flynyddol, Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol sydd yn gosod y lefelau cyflog yn annibynnol ar gyfer holl Gynghorwyr Cymru.

2.3 Os yw Aelod Etholedig yn penderfynu peidio derbyn y cyflog, mae'n angenrheidiol iddo/iddi ddatgan hynny yn ysgrifenedig i'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, gweler cymal 3.5 sy'n nodi fel a ganlyn:

"*Bydd y cyflo hwn yn cael ei dalu gan bob prif awdurdod yng Nghymru o 1 Ebrill 2020 i bob un o'i aelodau etholedig oni fydd unrhyw aelod unigol yn dewis yn bersonol ac yn ysgrifenedig i dderbyn swm îs*".

**AD-DALIAD COSTAU GOFAL**

3.1 Un o'r prif faterion sydd angen sylw yn ôl y Panel yw'r nifer isel o Gynghorwyr sy'n defnyddio'r ddarpariaeth yn y fframwaith i ad-dalu costau gofal.

*"O'r trafodaethau yn ystod ein hymweliadau â chynghorau mae'n amlwg mai ychydig iawn o aelodau sy'n defnyddio'r ddarpariaeth yn y fframwaith i ad-dalu costau gofal. Ymddengys fod rhai aelodau'n dal i fod yn gyndyn o hawlio'r cyfan y mae ganddynt hawl iddo i gefnogi eu gwaith, oherwydd pryderon ynghylch y cyhoeddusrwydd anffafriol y gall hyn ei ddenu (gweler Atodiad 4 am y gofynion cyhoeddi). "*

3.2 Mae'r Panel yn adodd ymhellach:
"*Erfyniwn ar Bwyllgorau Gwasanaethau Democrataidd i gymryd camau i annog mwy o aelodau i ddefnyddio'r elfen hon o'n fframwaith a hwyluso'r broses o'i hawlio fel nad yw'r aelodau dan sylw'n profi anfantais ariannol. Rydym wrthi'n cynnal adolygiad o'r ddarpariaeth hon gyda'r bwriad o annog mwy o aelodau sydd â chyfrifoldebau gofalu i fanteisio arni*."

3.3 Mae'r niferoedd sy'n hawlio ad-daliadau am gostau gofal (gofalu am ddibynnydd hŷn neu ifanc) yn isel iawn yng Nghymru, ac mae hynny yn wir yma yng Ngwynedd hefyd. Rydym yn cyhoeddi y wybodaeth ar safle we'r Cyngor yn anhysbys bellach, ond ymddengys fod Aelodau yn parhau yn amharod i hawlio'r ad-daliad costau. Gofynnir i Aelodau'r Pwyllgor ystyried pa gamau posib y gellir eu cymryd i hyrwyddo'r hawliau yma ymhellach?

**ARGYMHELLIAD**

4 Gofynnir i Aelodau'r Pwyllgor:

- Ystyried unrhyw sylwadau penodol mewn ymateb i'r ymgynghoriad
- Ystyried sut i hyrwyddo'r broses o hawlio ad-daliadau gofal.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATIAETH |
| **DYDDIAD** | 19 TACHWEDD, 2019 |
| **PWNC** | CYFATHREBU A THECHNOLEG |
| **PWRPAS** | Cyflwyno diweddariad o'r gwaith er mwyn gwella y ddarpariaeth i gyfathrebu trwy ddefnydd technoleg |
| **ARGYMHELLIAD** | Gofynnir i'r pwyllgor:<br>• Ystyried a chymeradwyo y ffordd ymlaen<br>• Adnabod grŵp bach o gynghorwyr i gynorthwyo treialu'r Porth Aelodau ar ei newydd wedd |
| **AWDUR** | Huw Ynyr, Uwch Reolwr Technoleg Gwybodaeth<br>Vera Jones, Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd |

**CEFNDIR**

1. Yng nghyfarfod y Cyngor llawn ar y 18fed o Orffennaf 2019 nododd yr Aelod Cabinet, y Cynghorydd Nia Jeffreys "*fod buddion amgylcheddol o ddefnyddio technoleg fodern ac o fod yn fwy cynhwysol, cynyddu'r potensial am gyfranogiad a denu mwy o unigolion o wahanol gefndiroedd i Lywodraeth Leol, ac i arbed arian hefyd.*"

2. Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd gyda'i ddefnydd o dechnoleg, ond mae lle i wella hynny ymhellach, ac mae rôl arbennig gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth i fod yn edrych ar hyn.

3. Ymysg y datblygiadau i'w nodi hyd yma:
   - ✓ Mae'r mwyafrif o aelodau yn derbyn a darllen eu dogfennau pwyllgor yn electroneg
   - ✓ Rydym wedi symud i ddarpariaeth Office 365, sydd wedi galluogi pob aelod i gael mynediad i'w ebost/dogfennau o unrhyw ddyfais mewn unrhyw le (yn amodol ar gyswllt di-wifr). Mae nifer fawr o aelodau wedi adrodd fod hyn wedi gwneud gwahaniaeth mawr.
   - ✓ Mae'r holl wybodaeth am Gynghorwyr yn cael ei ddiweddaru yn awtomatig ar y safle we trwy ddatblygiad "modern.gov"
   - ✓ Gall aelodau hawlio costau teithio yn electroneg yn rhwydd

- ✓ Mae darpariaeth “Skype” ar gael i bob aelod fod yn cysylltu yn electroneg gyda’i gilydd a gyda swyddogion hefyd.*
- ✓ Mae’r Cyngor hefyd yn defnyddio cyfleusterau fideo gynhadledd ar gyfer rhai cyfarfodydd anffurfiol – cyfarfodydd mewnol ac allanol.
- ✓ Mae’r mwyafrif o aelodau yn cyfathrebu gydag etholwyr trwy gyfrwng electroneg (e-bost, cyfryngau cymdeithasol, ac yn y blaen).
- ✓ Mae sesiynau hyfforddiant 1-1 wedi eu darparu (ac yn parhau i fod ar gael) i aelodau sydd eisiau hynny ar gyfer cael unrhyw gymorth gyda thechnoleg – o ddefnyddio peiriant i ddefnyddio skype

* cyfarpar yn amrywio o swyddog i swyddog

4. Fodd bynnag, nid da lle gellir gwell, ac mae mwy y gellir ei wneud i wella y ddarpariaeth ymhellach.

5. Un peth sy’n allweddol i’w nodi yw’r angen i drio ffyrdd gwahanol, gan gydnabod na fydd popeth yn gweithio yn llwyddiannus bob tro!

**FIDEO GYNHADLEDD**

6. Mae darpariaeth fideo gynhadledd ar gael yn y Cyngor yng Nghaernarfon (ystafell Ogwen a Siambr Hywel Dda) ac mewn un ystafell gyfarfod yn Nolgellau ac un ym Mhwllheli. Mae’r cyfarpar yn galluogi cyfieithu ar y pryd hefyd.

7. Mae cyfarfodydd anffurfiol wedi eu cynnal gydag aelodau a swyddogion yn y gwahanol leoliadau, ac wedi gweithio yn dda ar ambell achlysur, ac heb weithio cystal ar achlysuron eraill. Fodd bynnag, mae pob profiad yn adeiladol gan fod modd dysgu o bob profiad. Rydym ar hyn o bryd yn casglu barn am y gwahanol brofiadau defnyddwyr hyd yma.

8. Gan gymryd fod y dechnoleg yn gweithio yn rhwydd a’r cyfieithu yn mynd rhagddo heb unrhyw broblem, un o’r prif heriau wrth gynnal cyfarfod trwy fideo gynhadledd yw Cadeirio’r cyfarfod – yn arbennig pan nad yw’r Cadeirydd yn y prif safle. Yn sgil y profiadau hyd yma a’r sylwadau rydym wedi eu derbyn o’r profiadau hynny, rydym o’r farn fod angen datblygu sesiwn hyfforddiant cadeirio mewn amgylchiadau o’r fath.

**SKYPE**

9. Fel a nodwyd eisoes mae darpariaeth Skype ar gael ar beiriant pob Aelod – i’w ddefnyddio ar gyfer testun yn unig, ar gyfer galwad llais neu ar gyfer galwadau wyneb yn wyneb (lle bo’r ddarpariaeth lawn ar gael gan y derbynnydd). Rydym yn ymwybodol fod rhai Cynghorwyr yn gwneud defnydd o’r dechnoleg. Y prif fanteision sydd wedi eu nodi yw arbed amser ac arbed costau teithio yr un pryd.

10. Mae rhai enghreifftiau o gyfarfodydd anffurfiol wedi eu cynnal drwy ddefnyddio Skype hefyd – gyda nifer fechan o aelodau yn “galw” mewn i’r cyfarfod.

11. Unwaith eto mae’r profiad hyd yma wedi bod yn amrywiol, ac mae ffactorau penodol angen sylw er mwyn datblygu’r ddarpariaeth ymhellach. Mae’r elfen Cadeirio cyfarfod o’r fath unwaith eto yn dod a’i sialensau – ac mae’n sicr angen cynnwys yr elfen yma o fewn unrhyw raglen waith.

**Y FFORDD YMLAEN**

12. Ystyrir ei bod yn angenrheidiol ystyried y darlun cyfansawdd ar gyfer adnabod y ffordd ymlaen. Mae’n ofynnol gwneud hynny mewn modd rhesymegol sy’n cyd-fynd â datblygiadau eraill perthnasol.

13. Ystyrir fod hyn yn brosiect ar y cyd rhwng yr Adran Gyllid a’r Adran Gefnogaeth Gorfforaethol. I’r perwyl hwn mae Grŵp Prosiect wedi ei sefydlu i fwrw ymlaen gyda’r gwaith, a bydd y Grŵp Prosiect yn adrodd diweddariadau i’r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth maes o law.

14. Law yn llaw a’r uchod, ystyrir y gellir parhau i wella o fewn y ddarpariaeth gyfredol sydd gennym. Byddwn yn parhau i dreialu defnydd o fideo gynhadledd a skype, yn casglu tystiolaeth am brofiad y defnyddiwr, a cheisio dileu’r rhwystrau sy’n golygu nad ydym yn gwneud y defnydd gorau o’r ddarpariaeth gyfredol.

15. Yn ogystal, byddwn yn gweithio gyda’r Gwasanaeth Dysgu a Datblygu i ddatblygu hyfforddiant ar gyfer Cadeirio cyfarfodydd o’r fath, gan ymchwilio i waith Cynghorau eraill yn y maes a dysgu o’u profiadau hwy.

**PORTH AELODAU**

16. Yn ychwanegol, un o’r materion sydd wedi bod yn cael sylw dros y misoedd diwethaf yw’r porth aelodau. Bydd yr aelodau yn cofio i’r porth gael ei sefydlu ar gais yr aelodau fel lleoliad electroneg i gael gwybodaeth yn rhwydd.

17. Derbyniwyd nifer o sylwadau gan aelodau ar ymarferoldeb y porth, a syniadau ynghylch yr hyn roeddent yn ddymuno ei gael. I grynhoi yn syml, roedd teimlad fod lle i wella pa mor hawdd ei ddefnyddio oedd y porth, ond fod y wybodaeth arno yn ddefnyddiol iawn – yn arbennig i Aelodau newydd.

18. Yn sgil y sylwadau hyn, mae porth wedi ei ddatblygu ar ei newydd wedd, sy’n llawer haws ei ddefnyddio ac wedi ei adeiladu o berspectif aelodau’n ei ddefnyddio yn hytrach na staff yn ei gynllunio.

19. Mae safle peilot wedi ei greu, gyda’r bwriad o rannu’r porth gyda’r holl aelodau gynted ag y bydd yn barod. Prif fuddion y porth yw newydd yw:

- syml
- Yn weledol haws i'w ddefnyddio
- Ceisio edrych trwy lygaid aelod newydd (sydd ddim yn adnabod y Cyngor)

20. Gofynnir i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth adnabod 3 neu 4 o'ch plith i gael cyflwyniad i'r porth a'i ddefnyddio dros dro er mwyn bwydo sylwadau yn ôl i'r swyddogion. Gofynnwn hefyd am sylwadau ar sut i lawnsio a hyrwyddo'r porth ar ei newydd wedd.

**ARGYMHELLIAD**

21. Gofynnir i'r pwyllgor:
   - Ystyried a chymeradwyo y ffordd ymlaen
   - Adnabod grŵp bach o gynghorwyr i gynorthwyo treialu'r Porth Aelodau ar ei newydd wedd

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd |
| **DYDDIAD** | 19 Tachwedd 2019 |
| **PWNC** | Adroddiadau Blynyddol Aelodau Etholedig |
| **PWRPAS** | Cyflwyno gwybodaeth am Adroddiadau Blynyddol Aelodau Etholedig (2018/19) a gyhoeddwyd a'r gwelliannau sydd wedi eu gwneud i'n prosesau. |
| **ARGYMHELLIAD** | Gofynnir i'r Pwyllgor gyflwyno unrhyw sylwadau ar wella'r trefniadau ymhellach |
| **AWDUR** | Vera Jones<br>Rheolwr Gwasanaeth Democratiaeth a Iaith |

**1. CEFNDIR**

1.1 Fel y gwyddoch mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn nodi:

Rhaid i awdurdodau lleol wneud trefniadau i:

- bob person sy'n aelod o'r awdurdod i lunio adroddiad blynyddol ynghylch gweithgareddau'r person fel aelod o'r awdurdod yn ystod y flwyddyn y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi,
- bob person sy'n aelod o weithrediaeth yr awdurdod lunio adroddiad blynyddol ynghylch gweithgareddau'r person fel aelod o'r weithrediaeth yn ystod y flwyddyn y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi ac
- awdurdod gyhoeddi pob adroddiad blynyddol sy'n cael ei lunio gan ei aelodau a chan aelodau ei weithrediaeth.

1.2 I atgoffa'r Aelodau, mae'r canllawiau gwreiddiol a dderbyniwyd wedi eu cynnwys yn **Atodiad A**.

**2. ADRODDIADAU BLYNYDDOL DROS Y BLYNYDDOEDD DIWETHAF A GWELLIANNAU ELENI**

2.1 Nodir isod y nifer o Aelodau Etholedig a ddewisodd gyhoeddi adroddiadau blynyddol dros y blynyddoedd diwethaf:

| | |
|---|---|
| 2012/13 | 8 adroddiad (peilot o'r drefn) |
| 2013/14 | 26 adroddiad (gan ddefnyddio templed am y tro cyntaf) |
| 2014/15 | 39 adroddiad |
| 2015/16 | 29 adroddiad |
| 2016/17 | Ni chynhyrchwyd adroddiadau |
| 2017/18 | 16 adroddiad |
| 2018/19 | 17 adroddiad |

2.2 Gellir gweld yr adroddiadau trwy ddilyn y ddolen isod: https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Cynghorwyr-a-phwyllgorau/Sut-maer-Cyngor-yn-gweithio/Adroddiadau-Blynyddol.aspx

2.3 Dros y blynyddoedd mae Aelodau'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth wedi trafod yr adroddiadau blynyddol lawer gwaith, gyda'r nôd parhaus o gynhyrchu adroddiadau gweledol deniadol, o geisio symleiddio'r broses i'w cynhyrchu tra'n cadw o fewn y canllawiau ar gyfer yr adroddiadau.

2.4 Eleni, penderfynwyd symleiddio'r broses ymhellach, gan ofyn i Aelodau Etholedig ateb dau gwestiwn ar ffurf e-bost yn unig fel a ganlyn:

- Beth oedd eich prif weithgareddau etholaethol a chymunedol dros y cyfnod 4 Mai 2018 i 3 Mai 2019?

- Pa gyfarfodydd y bu i chi eu mynychu yn ystod y cyfnod 4 Mai 2018 i 3 Mai 2019 yn ychwanegol i'r hyn a nodir yn eich ystadegau presenoldeb ar y wefan? (Bydd y Tîm yn trefnu i osod dolen i'ch manylion ar y we) .

2.5 Roedd yr amserlen eleni yn llawer tynnach na'r hyn a fu yn y gorffennol, gyda'r nôd o sicrhau cyhoeddi yr adroddiadau ar y safle we yn ddwyieithog cyn yr haf. Roedd y camau fel a ganlyn:

- **Erbyn 21 Mehefin** gofynnwyd i Aelodau gyflwyno ymateb drafft mewn un iaith i'r Gwasanaeth Democratiaeth ar gyfer eu gwirio.
- Ymestynnwyd y dyddiad ymateb i **4 Gorffennaf**.
- Yn dilyn cytuno ar y fersiwn derfynol trefnodd y Gwasanaeth gyfieithiad o'r adroddiad blynyddol
- Ar **19 Gorffennaf** cwblhawyd y gwaith a chyhoeddwyd yr adroddiadau blynyddol ar wefan y Cyngor

Bu'r broses yn llawer esmwythach i'r Aelodau a'r Swyddogion eleni ar gyfer cynhyrchu adroddiadau 2018/19. Tybir mai'r rhesymau am hyn yw:

- Nad oedd templed i'w gwblhau, yn hytrach 2 gwestiwn oedd angen sylw yr Aelodau
- Nid oedd gwaith trosglwyddo rhwng un rhaglen gyfrifiadurol a'r llall
- Dilëwyd nifer o gamau gwastraff o'r prosesau cefndirol, camau nad oedd yn ychwanegu gwerth
- Blaenoriaethwyd y gwaith gan swyddogion er mwyn ei gwblhau yn amserol

## 3. ARGYMHELLIAD:

(i) Gofynnir i’r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd gyflwyno unrhyw sylwadau ar wella’r trefniadau ymhellach.

# ADRODDIADAU BLYNYDDOL AELODAU O AWDURDOD LLEOL

Annwyl Aelod

**Adroddiadau Blynyddol : 4 Mai 2018 i 3 Mai 2019**

Eleni, yn wahanol i'r blynyddoedd a fu, rydym wedi penderfynu lleihau y gofynion sydd yn disgyn arnoch fel Aelodau o ran cwblhau eich Adroddiadau Blynyddol.

Yn hytrach na chwblhau ffurflen benodol, tybed a oes modd i chi ymateb drwy e-bost ar ffurf pwyntiau bwled i'r 2 gwestiwn isod erbyn Dydd Gwener 21 Mehefin, 2019 :

Beth oedd eich prif weithgareddau etholaethol a chymunedol dros y cyfnod 4 Mai 2018 i 3 Mai 2019?

Pa gyfarfodydd y bu i chi eu mynychu yn ystod y cyfnod 4 Mai 2018 i 3 Mai 2019 yn ychwanegol i'r hyn a nodir yn eich ystadegau presenoldeb ar y wefan? (Bydd y Tîm yn trefnu i osod dolen i'ch manylion ar y we) .

Er hwylustod i chi, byddwn ni yn cysylltu gyda'r Adran Dysgu a Datblygu ar eich rhan i gael manylion unrhyw hyfforddiant y bu i chi ei fynychu yn ystod y cyfnod 4 Mai 2018 i 3 Mai 2019. Cofiwch os ydych wedi mynychu hyfforddiant na chafodd ei drefnu drwy yr Adran Dysgu a Datblygu, mae'n bwysig i chi adael i ni wybod am hyn, fel y gellir eu cynnwys.

Os ydych yn dymuno rhoi eglurhad ynglŷn ag unrhyw bwyllgorau/digwyddiadau na lwyddoch i'w mynychu mae croeso i chi wneud.

Isod mae dolen i'r adroddiadau a gynhyrchwyd yn ystod y cyfnod 2017/18, er gwybodaeth.

https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Cynghorwyr-a-phwyllgorau/Sut-maer-Cyngor-yn-gweithio/Adroddiadau-Blynyddol.aspx

**Dewch mewn cysylltiad os fedrwn fod o unrhyw gymorth.**

Diolch

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATIAETH |
| **DYDDIAD** | 19 TACHWEDD, 2019 |
| **PWNC** | IS-GRŴP AMRYWIAETH |
| **PWRPAS** | Cyflwyno diweddariad ar waith yr is-grŵp Amrywiaeth i aelodau'r Pwyllgor a gofyn am sylwadau ar y rhaglen waith ddrafft. |
| **ARGYMHELLIAD** | Gofynnir i Aelodau'r Pwyllgor:<br>a. nodi'r wybodaeth uchod<br>b. Gyflwyno unrhyw sylwadau ar y rhaglen waith. |
| **AWDUR** | Vera Jones, Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd |

**CEFNDIR**

1. Sefydlwyd yr is-grŵp 'Amrywiaeth mewn Democratiaeth' yn benodol ar gyfer ceisio creu amgylchiadau i bobl o wahanol gefndiroedd i gynrychioli pobl Gwynedd trwy sefyll etholiad i fod yn Gynghorydd.

2. Mae'r Grŵp wedi sefydlu 'Cylch Gorchwyl' ar gyfer eu gwaith – gellir ei weld yn **Atodiad A**. Mae'r Cylch Gorchwyl yn esbonio y cefndir, pwrpas ac aelodaeth.

**DIWEDDARIAD O WAITH Y GRŴP**

3. Mae'r is-grŵp wedi ail afael yn y gwaith dros y misoedd diwethaf, ac yn falch o groesawu aelodau newydd i'r grŵp. Gwnaethpwyd cynnydd mewn tri maes penodol: codi ymwybyddiaeth o ragfarn diymwybod, cynnal peilot o ddigwyddiad i gynyddu ymwybyddiaeth o drefniadau democratiaeth ymysg pobl ifanc, a sefydlu rhaglen waith pellach.

4. <u>Rhagfarn Diarwybod</u> - Mae'r adroddiad gan y Tîm Dysgu a Datblygu'r Sefydliad yn adrodd ar lwyddiant yr hyfforddiant "rhagfarn diarwybod", a gododd yn wreiddiol fel cais gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd. Trwy godi mwy a mwy o ymwybyddiaeth i'r rhagfarn diarwybod sydd gennym oll mae'n agor y drws i'n galluogi i wneud rhywbeth am y sefyllfa a gwella amgylchiadau i bawb.

5. <u>Cynyddu ymwybyddiaeth o drefniadau democratiaeth ymysg pobl ifanc</u> - Bu criw o 85 o bobl ifanc o 6 o ysgolion cynradd dalgylch Dyffryn Nantlle ar ymweliad â Siambr y Cyngor yn ystod mis Gorffennaf eleni. Pwrpas y sesiwn oedd ceisio codi ymwybyddiaeth y plant o drefniadau democratiaeth y Cyngor. Rhoddwyd profiad iddynt o drafod yn y Siambr, gan roi cyfle iddynt holi rhai o'r Cynghorwyr ar wahanol bynciau.

6. Bu’r ymweliad yn llwyddiant a’r plant wedi elwa o’r profiad. Mae’r is-grŵp wedi trafod y gwersi i’w dysgu o’r digwyddiad cyntaf hwnnw, ac wedi ystyried sut orau i symud ymlaen gyda chynnal digwyddiad tebyg i’r dyfodol.

7. Rhaglen Waith – mae’r grŵp hefyd wedi trafod rhaglen waith i’r dyfodol, gyda nifer o awgrymiadau wedi eu cynnwys. Gweler tabl o’r prif bwyntiau y rhaglen waith isod:

POBL IFANC

Cynyddu ymwybyddiaeth o drefniadau democratiaeth ymysg pobl ifanc

Cynnal a threialu un neu ddau o ddigwyddiadau eraill gyda phobl phobl ifanc megis:

- Ystyried trefnu sesiwn drafod gyda chriw o bobl ifanc ar faes penodol a defnyddio’r cyfle i esbonio sut y gallent gael dylanwad (hynny yw trwy’r trefniadau democratiaeth) iddynt wrth iddynt drafod y pwnc. Awgrymwyd cyd-weithio gyda swyddogion Amgylchedd er mwyn trefnu trafodaeth ar bwnc penodol (ee ee sbwriel/hinsawdd/baw cwn/plastigion)
- Cysylltu gyda’r Gwasanaeth Ieuenctid i drafod digwyddiadau i hybu democratiaeth
- Ystyried cynnig eitem ar ddigwyddiadau hybu amrywiaeth mewn democratiaeth i gyfarfod o Lywodraethwyr Gwynedd

POBL ANABL

Dealltwriaeth o’r rhwystrau

- Mae un o aelodau’r îs-grŵp am drafod y rhwystrau rhag bod yn Gynghorwyr yng nghyfarfod nesaf Grŵp mynediad Meirionnydd ac adrodd yn ôl i’r grŵp. Trwy gael dealltwriaeth o’r rhwystrau hyn bydd yn bosib gweld beth all y Cyngor ei wneud i gynorthwyo

Y TRI GRWP TARGED

Ystyriaethau i drefniadau ymarferol

- Cynnal trafodaethau gyda Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol Cymru ar effaith lefel bresennol y lwfans i Gynghorwyr a’r ffaith nad yw’n ddigon uchel i hybu amrywiaeth
- Gofyn i’r Panel ymchwilio mewn i’r effaith ar fudd-daliadau o godi lwfansau.
- Ymchwilio i waith Llywodraeth Cymru o ran cyflogwyr yn rhyddhau staff i fynd i gyfarfodydd ac adrodd yn ôl i’r is-grŵp

Gwaith ymchwil pellach

- Ymchwilio i waith Llywodraeth Cymru i sicrhau diweddariad ar y prosiect mentora cenedlaethol ac adrodd yn ôl i’r is-grŵp
- Ail ymweld â’r gwaith ymchwil a wnaethpwyd gan y grŵp i’r rhwystrau sydd wedi eu hadnabod gan aelodau, a chysylltu gyda Cynghorwyr i holi pam eu bod wedi penderfynu sefyll yn y lle cyntaf. Defnyddio allbwn y gwaith yma fel sail i raglen pellach o waith.

**ARGYMHELLIAD**

8. Gofynnir i Aelodau’r Pwyllgor:
   a. nodi’r wybodaeth uchod
   b. Gyflwyno unrhyw sylwadau ar y rhaglen waith.

**ATODIAD A**

# Cylch Gorchwyl
# Amrywiaeth mewn Democratiaeth
# (Is-grŵp o'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth)

1. **Enw'r Grŵp prosiect**: Amrywiaeth mewn Democratiaeth

2. **Pwrpas**:

Mae Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth y Cyngor wedi adnabod ers tro nad yw Aelodaeth o Gynghorwyr Etholedig Cyngor Gwynedd yn adlewyrchu y gymdeithas y mae'n ei chynrychioli. Yn benodol, mae anghysonder mawr rhwng cyfran yr aelodau etholedig a chyfran y boblogaeth yn y meysydd a ganlyn:

- Merched
- Pobl Ifanc
- Pobl Anabl

Yn ogystal, mae Cynllun Cydraddoldeb Cyngor Gwynedd 2016-2020 wedi adnabod Amcan benodol (Amcan 3) sef "Creu amgylchiadau i bobl o wahanol gefndiroedd i gynrychioli pobl Gwynedd trwy sefyll etholiad i fod yn aelod etholedig". Mae'n debygol y bydd yr amcan yma yn cael ei blaenoriaethu ar gyfer cynllun 2020-2024 hefyd.

Sefydlwyd y Grŵp yn wreiddiol i adolygu trefniadau wrth ystyried etholiadau 2017. Pwrpas y Grŵp yw ceisio creu amgylchiadau i bobl o wahanol gefndiroedd i gynrychioli pobl Gwynedd trwy sefyll etholiad i fod yn Gynghorydd etholedig.

Bu'r gwaith gwreiddiol yn canolbwyntio ar:

- Adnabod y rhwystrau oedd yn bodoli oedd yn atal unigolion rhag sefyll mewn etholiadau llywodraeth leol
- Rhannu gwybodaeth yn ehangach o sut i sefyll a beth mae hynny yn ei olygu (crëwyd man arbennig ar y safle we i ateb cwestiynau yn glir a syml, a chrëwyd fideo i esbonio rôl Cynghorydd a gwaith y Cyngor).
- Gyrru cyfres o negeseuon trwy gyfryngau cymdeithasol i godi ymwybyddiaeth trigolion Gwynedd o etholiadau a'r angen am fwy o bobl o wahanol gefndiroedd i sefyll
- Cynnal cyfres o nosweithiau agored ar gyfer ateb cwestiynau darpar ymgeiswyr wrth iddynt ystyried sefyll

Ymhellach, mae'r grwp (dan arweiniad y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth) wedi:

- cynnal cyfres o hyfforddiant "codi ymwybyddiaeth o ragfarn diarwybod" ymysg Aelodau Etholedig
- peilota trefniadau i gynnal sesiynau i ddisgyblion ysgolion cynradd i gael blas ar ddemocratiaeth trwy ymweld â Siambr y Cyngor

**3. Amcanion y Grŵp**:

Bydd y Grŵp yn parhau i ymdrechu at gyfrannu at geisio hybu mwy o amrywiaeth o wahanol gefndiroedd i sefyll etholiad ar gyfer Llywodraeth Leol. I'r perwyl hwn felly bydd angen

- Llunio cynllun gweithredu i geisio ymateb i'r 3 maes blaenoriaeth

**4. Cyfansoddiad y Grŵp**

Mae'r Grwp wedi ei sefydlu o aelodau o'r Pwyllgor Gwasanethau Democratiaeth fel a ganlyn:

Cynghorwyr:
Anne Lloyd Jones
Dewi Owen (Cadeirydd yr is-grŵp)
Cai Larsen
Annwen Daniels
Eryl Jones-Williams
Dewi Wyn Roberts
Mair Rowlands

Swyddogion:
Sion Gwynfryn Williams (neu aelod o'r tîm)
Vera Jones
Sion M Owen

**5. Trefniadau gweithredu'r Grŵp**

- Bydd y Grŵp prosiect yn cael ei gadeirio gan y Cynghorydd Dewi Owen, Cadeirydd y Grŵp;
- Cynhelir cyfarfodydd y Grŵp yn ôl y galw; trwy ddarpariaeth fideo gynhadledd
- Rhoddir cyfle i aelodau'r grŵp ychwanegu eitemau i'w trafod ar yr agenda cyn bob cyfarfod;
- Caiff pwyntiau gweithredu eu nodi a'u cylchredeg yn dilyn pob cyfarfod.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd |
| **DYDDIAD** | 19 Tachwedd 2019 |
| **TEITL YR ADRODDIAD** | Darpariaeth Dysgu a Datblygu i Aelodau |
| **PWRPAS** | Rhoi trosolwg o'r ddarpariaeth *Dysgu a Datblygu* i Aelodau, gan amlygu llwyddiannau, sialensiau a datblygiadau |
| **ARGYMHELLIAD** | Gwahoddir y Pwyllgor i:<br>• Ystyried camau er mwyn annog mwy o Aelodau i gymryd cyfrifoldeb dros eu dysgu a manteisio ar gyfleoedd datblygol<br>• Ystyried cynnwys y Rhaglen Hyfforddiant ar gyfer 2020/21 ac awgrymu teitlau ychwanegol i'w cynnwys |
| **AWDUR** | Carey Cartwright (Rheolwr *Dysgu a Datblygu'r Sefydliad*) |

1. **TROSOLWG**

Fel y nodwyd mewn adroddiadau blaenorol, cynigir rhaglen ddatblygol gynhwysfawr sy'n cynnwys hyfforddiant 'traddodiadol' wyneb i wyneb, ac elfennau megis gweithdai, cymhelliant (*coaching*) ac e-ddysgu. Hefyd, darperir rhaglen ar gyfer datblygu'r Arweinyddiaeth.

Mae'r rhaglen yn cynnwys teitlau *allweddol/craidd* (sy'n cael eu hadnabod gan Swyddogion yn bennaf) a theitlau *datblygol* sy'n rhoi cyfle i Aelodau ystyried eu hanghenion dysgu a datblygu personol eu hunain a chymryd cyfrifoldeb cynyddol dros gynnwys y rhaglen.

**2. LLWYDDIANNAU**

2.1 **Adborth yn Dilyn Sesiynau Diweddar**

2.1.1 **Rhagfarn heb Wybod (*Unconscious Bias*)**

(19 o Aelodau wedi mynychu'r hyfforddiant hyd yma. Sesiwn nesaf wedi ei drefnu ar gyfer 26/2/20).

**Adborth yn dilyn y sesiwn**

- *"Rydym yn credu ein bod yn gwneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth, yn rhesymegol. Mewn gwirionedd, rydym yn gwneud penderfyniadau yn fwy mympwyol ac yn rhesymoli i gyfiawnhau'r penderfyniadau hyn.*
- *"Hyfforddiant buddiol i bawb, yn enwedig y rhai sy'n gwneud penderfyniadau staffio fel penodi a disgyblu"*
- *"Efallai fy mod yn fwy ymwybodol bod pobl yn ystyried pethau o safbwyntiau gwahanol ac yn fwy parod i weld pethau o'u safbwynt nhw. Mae'n bwysig gweld pethau o safbwynt "Pobl Gwynedd" - y rhai sy'n defnyddio ein gwasanaethau neu sy'n cael eu heffeithio gan ein penderfyniadau - yn hytrach nac o safbwynt cynghorwyr a swyddogion"*
- *"Bydd y cwrs yn fy helpu ar y Pwyllgor Apeliadau Cyflogaeth, lle bydd aelodau'r Pwyllgor yn gorfod pwyso a mesur safbwynt yr aelod staff sy'n apelio a safbwynt y rheolwyr sydd wedi ei ddisgyblu."*

<u>Adborth Swyddog Polisïau a Materion Gwella (Gwasanaethau Democrataidd) Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru:</u>

*"Mwynheais yr hyfforddiant yn ddirfawr. Roedd yr hwyluswyr yn wych, roedd y cynnwys yn wych ac roedd y rhediad a'r lefel yn hollol iawn hefyd. Dwi'n teimlo y dylai hwn fod yn hyfforddiant mandadol i bob Cynghorwr. Os oes modd ei gynnig i Gynghorau cyfagos yna dwi'n credu'n gryf y gallent gael budd mawr ohono."*

2.1.2 **Delio gyda'r Wasg**

- *"Hyfforddiant hynod ddefnyddiol, gwahanol, ymarferol a hynod broffesiynol*
- *"Does neb yn gwybod be all godi yn eu ward, ac felly mae'r profiadau rwyf wedi'i gael ar y cwrs yma yn wych"*
- *"Sialens, anodd ar adegau, ond yn cyffwrdd ar faterion cynhennus iawn"*
- *"Wedi ennill sgiliau gwerthfawr"*

2.2 **<u>Merched yn y Cyngor – Ein Lle Ni</u>**

Mae'r tîm Dysgu a Datblygu'r Sefydliad wedi ymateb i alw penodol i sefydlu rhwydwaith/grŵp o ferched sydd wedi eu hethol fel Cynghorwyr Sir. Yn bresennol, agenda datblygiad proffesiynol sydd gan y grŵp.

Mae 2 sesiwn eisoes wedi eu cynnal (Grŵp Llywio: 22/05/19, Sesiwn2: 30/09/19)

- Rhan 1: Cyflwyniad ar wybodaeth neu Siaradwr gwadd
  - Siaradwr gwadd 08/01/2019: Liz Saville Roberts (AS)
- Rhan 2: Sgyrsiau grŵp wedi eu cymell
  - Esiamplau o'r thema sydd wedi codi hyd yma:
    - Adeiladu hunan hyder a chynyddu gwytnwch
    - Anogaeth i ganolbwyntio ar gyd-bwrpasu fel merched ym myd gwleidyddiaeth
    - Cael safbwyntiau gwahanol o'r grŵp - trawsbleidiol a sbectrwm gwleidyddol
    - Dyfnhau 'tryst' a chydweithredu ymhlith cyfoedion o'r grwpiau wrth gynyddu dealltwriaeth o'u materion, ysgogiant a bwriad fel aelodau

Mae 9 aelod o Wynedd wedi mynychu'r grwpiau ac 1 aelod o Gyngor Sir Ynys Môn wedi ymuno. Mae sgôp i wahodd Aelodau o gynghorau cyfagos arall.

2.3 **<u>Ffordd Gwynedd</u>**

Mae nifer o Aelodau'r Cabinet wedi manteisio ar y cyfle i fynychu sesiynau ***Ffordd Gwynedd: Rhaglen Hyfforddi Rheolwyr*** er mwyn datblygu eu dealltwriaeth ymhellach drwy gyfuniad o ddysgu ffurfiol, trafodaethau a phrofiadau ymarferol. Dyma rai o sylwadau a gafwyd gan Aelodau Cabinet:-

- *"Dysgais lawer iawn trwy fynychu'r hyfforddiant Fford Gwynedd. Roedd y cymysgedd o ddysgu ffurfiol ac ymarferol yn effeithiol iawn ac esiamplau a straeon da roedd yr hyfforddwyr yn ychwanegu i'r sesiwn yn creu awyrgylch hwyliog i'r hyfforddiant. Roedd yn ysbrydoliaeth i mi weld ymateb Rheolwyr y Cyngor i'r hyfforddiant. Roedd pawb ar y cwrs yn gadael gyda brwdfrydedd ac ymroddiad i wirioneddol roi pobol Gwynedd yn hollol ganolog i'w gwaith".*

2.4 **<u>Cymhelliant un i un</u>**

Hoffem atgoffa'r Pwyllgor bod gan yr holl Aelodau fynediad i sesiynau Cymhelliant 1:1 a hefyd sesiynau Mentora gyda eu cyd-aelodau. Un esiampl o adborth am y sesiynau cymhelliant yw eu bod wedi bod yn drawsnewidiol a bod yr Aelod yn parhau i gael budd mawr allan ohonynt.

**3. <u>MESUR PERFFORMIAD</u>**

Er mwyn mesur ein perfformiad fel Gwasanaeth, rydym yn cysylltu gydag Aelodau i ofyn am berthnasedd ac effaith y ddarpariaeth hyfforddi gan ofyn hefyd am awgrymiadau ar sut i wella ein darpariaeth. Derbyniwyd adborth positif ac adeiladol gan nifer o Aelodau:

- *"Mae'r teitlau rydych yn eu cynnig yn cyfro bob dim rydym ei angen fel Aelodau a gallaf ond ganmol hynny"*
- "*Mae cyfrifoldeb ar bob Aelod i ddatblygu eu hunain, a gwneud ymdrech i fynychu'r sesiynau sy'n cael eu trefnu ar eu cyfer"*

## 4. HERIAU

### 4.1 **Presenoldeb**

Mae niferoedd mynychu yn parhau i fod yn anghyson e.e. trefnwyd hyfforddiant "*Arwain yn Ddiogel*" yn benodol ar gyfer Aelodau oedd heb fynychu, ond bu'n rhaid canslo'r digwyddiad oherwydd y nifer siomedig a gofrestrodd.

Targedwyd nifer o Aelodau sydd ddim yn manteisio ar y rhaglen ddysgu er mwyn deall yn well beth sy'n eu rhwystro. Dyma sampl o'r adborth a dderbyniwyd:

- *"Rhwng gweithio o ddydd i ddydd a'r holl Bwyllgorau, dwi'n gorfod blaenoriaethu pethau"*
- *"Dwi ond yn mynychu teitlau sydd o ddiddordeb i mi"*
- *"Unrhyw faes dwi'n angen help efo, dwi'n medru cael y wybodaeth dros y ffôn/e-bost/y we a dwi ddim yn teimlo bod angen Rheolwyr/swyddogion i roi gwybodaeth imi."*
- *"Rhwystr mawr sydd gen i yw fy mod yn gorfod cymryd 'gwyliau di dâl' ar gyfer Pwyllgorau a hyfforddiant sy'n disgyn ar fy amser gwaith"*
- *"Yn fy oed i, dwni ddim faint mwy o 'ddatblygu' sydd angen imi wneud felly dwi ddim yn credu ei fod o'n bwysig imi erbyn hyn"*

### 4.2 **Ymateb y Gwasanaeth Dysgu a Datblygu**

- Cynnal ymchwil pellach i'r hyn sy'n rhwystro Aelodau rhag mynychu
- Gofyn i Aelodau os oes 'bylchau' yn y ddarpariaeth Dysgu
- Teilwrio rhaglenni dysgu i anghenion unigolion a grwpiau
- Cynnig mwy o deitlau yng nghanol y Sir
- Cynnig dewis o ddyddiadau ar gyfer teitlau
- Parhau i ddatblygu defnydd o dechnoleg e.e. *Skype* ac e-ddysgu

***Gwahoddir y Pwyllgor i ystyried camau er mwyn annog mwy o Aelodau i gymryd cyfrifoldeb dros eu dysgu a manteisio ar gyfleoedd datblygol, yn arbennig mewn meysydd allweddol/craidd.***

## 5. RHAGLEN HYFFORDDIANT 2020/21

5.1 Mae'r rhaglen hyfforddiant ar gyfer 2020/21 yn parhau i esblygu. (Atodiad 1). Mae'r teitlau yn y rhaglen yn seiliedig ar:-

- Awgrymiadau gan Swyddogion ac Adrannau am eu meysydd arbenigol
- Awgrymiadau gan Aelodau (meysydd ar gyfer datblygiad personol yn ogystal â grwpiau)

***Gwahoddir y Pwyllgor i ystyried y rhaglen bresennol a chynnig awgrymiadau am feysydd/teitlau ychwanegol i'w cynnwys.***

# RHAGLEN DATBLYGU AELODAU ETHOLEDIG

# ELECTED MEMBERS' DEVELOPMENT PROGRAMME

# 2019/20

| Dyddiad ac amser / *Date and time* | | Digwyddiad / *Event* | Lleoliad / *Location* | Arweinwyr / *Leaders* |
|---|---|---|---|---|
| | | | Lleoliad / *Location* | Arweinwyr / *Leaders* |
| Mai 15 May | | - RHYDD / FREE - | | |
| | (13:30 – 15:30) | Ymwybyddiaeth Awtistiaeth \| Autism Awareness | Siambr HYWEL DDA Chamber, Caernarfon | Sioned Thomas (WLGA) |
| Mai 17 May | (10:00 – 13:00) | Gofalu am ein Hamgylchedd \| Caring for our Environment (I unrhyw un sydd heb fynychu \| For those who haven't attended) | Clwb Pêl Droed PORTHMADOG Football Club | Dafydd Meurig + Angela Russell |
| Mai 20 May | (10:00 – 12:00)<br>(13:30 – 15:30) | Gweithdy Aelodau - Ail Fodelu Gofal Cartref | Ystafell PRYSOR Room, Penrhyndeudraeth | Meilys Haulfryn Smith |
| Mai 21 May | (13:30 – 15:30) | Gweithdy Aelodau – Ail Fodelu Gofal Cartref | Ystafell Peris Room, Caernarfon | Meilys Haulfryn Smith |
| Mai 22 May | (14:00 – 16:00) | Merched yn y Cygnor – Ein Lle Ni \| Women of the Council – Our Place | Ystafell | |

| Dyddiad ac amser / *Date and time* | Digwyddiad / *Event* | Lleoliad / *Location* | Arweinwyr / *Leaders* |
|---|---|---|---|
| Mehefin 3 June (10:00 – 13:00) | Tuedd heb Wybod \| Unconscious Bias | Ystafell PERIS Room, Caernarfon | Iwan Wyn Jones a Nia Meleri Edwards |
| Mehefin 26 June | - RHYDD - | - | - |
| Medi 16 September (10:00 – 12:00) | Geithdy i Aelodau - Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd \| Joint Local Development Plan (Gwynedd and Isle of Anglesey) | Siambr DAFYDD ORWIG Chamber, Caernarfon | Gareth Jones |
| Medi 18 September (10:00 – 12:30)<br><br>(13:30 – 16:00) | ~~Arwain yn Ddiogel \| Safe Leadership (I unrhyw un sydd heb fynychu \| for those who haven't attended previously)~~<br><br>Hybu'r Gymraeg – Rôl i bawb \| Promoting the Welsh language – A role for everyone | ~~Siambr HYWEL DDA Chamber,~~<br><br>Siambr HYWEL DDA Chamber | ~~Catrin Love -~~ **Cansio – diffyg niferoedd \| cancelled : insufficient numbers**<br><br>Gwenllian Mair Williams |
| Medi 27 September (10:00 – 11:30) | Gwybodaeth am Bobl : Eich Cyfrifoldeb Chi<br><br>Sesiwn ar gyfer Aelodau sydd heb fynychu \| For Members who have been unable to attend previous sessions | Caernarfon<br><br>Lleoliad yn ddibynnol ar niferoedd \| Venue dependent on numbers | Helen Mary Parry |
| Medi 30 Septmber (10:00 – 12:30) | Merched yn y Cyngor : Ein Lle Ni \| Women of the Council : Our Place | Ystafell PERIS Room<br><br>Caernarfon | Nia Meleri-Edwards |
| Tachwedd 27 November (10:00 – 12:00)<br><br>(pm) | Tai Teg – Pa gynlluniau sydd ar gael \| Which schemes are available<br><br>- RHYDD - / FREE - | Siambr HYWEL DDA Chamber, Caernarfon | Catrin V Roberts |

| Dyddiad ac amser / *Date and time* | | Digwyddiad / *Event* | Lleoliad / *Location* | Arweinwyr / *Leaders* |
|---|---|---|---|---|
| Ionawr 8 January | (am) | Merched yn y Cyngor - Ein Lle Ni\| Women of the Council– Our Place ***(I'w gadarnhau / To be confirmed)*** | Penrhyndeudraeth | Liz Saville Roberts (Siaradwr Gwadd/Guest Speaker) |
| | (1:00 – 16:00) | Hybu'r Gymraeg – Rôl i bawb \| Promoting the Welsh language – A role for everyone | Ystafell DWYRYD Room, Penrhyndeudraeth | Gwenllian Mair Williams |
| Chwefror 26 February | (10:00 – 12:30) | Arwain yn Ddiogel \| Safe Leadership (I bawb sydd heb fynychu/for everyone who haven't attended previously) | Ystafell PRYSOR Room Penrhyndeudraeth | Catrin Love |
| | (13:30 – 16:00) | Rhagfarn heb Wybod \| Unconscious Bias (I bawb sydd heb fynychu/for everyone ho haven't attended previously) | Ystafell PRYSOR Room Penrhyndeudraeth | Nia Meleri Edwards + Iwan Wyn Jones |
| Mawrth 18 March | (am) | Gwybodaeth am Bobl : Eich Cyfrifoldeb Chi / Information about People : Your Responsibility (I bawb sydd heb fynychu/for everyone who haven't attended previously) | I'w gadarnhau / To be confirmed | Helen Mary Parry |

Dyddiadau ychwanegol yn y Calendr / Additional dates in the Calendar

Teitlau sydd angen eu hystyried ond heb eu trefnu:-

- Sgiliau Cwestiynu Craffu
- Hyfforddiant i Gadeiryddion ac Is-Gadeiryddion
- TG / Porth Aelodau / Skype

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATIAETH |
| **DYDDIAD** | 19 TACHWEDD, 2019 |
| **PWNC** | YMDDYGIAD BYGYTHIOL YN ERBYN CYNGHORWYR |
| **PWRPAS** | Cyflwyno canllawiau diweddaraf Cymdeithas Llywodraeth Cymru (CLlC) “Canllaw’r Cynghorwyr i drafod bygwch”. |
| **ARGYMHELLIAD** | Gofynnir i aelodau’r pwyllgor:<br><br>• Ystyried canllawiau Cymdeithas Llywodraeth Cymru “Canllaw’r Cynghorwyr i drafod bygwth”<br>• Ystyried codi ymwybyddiaeth cyd-aelod o’r canllawiau |
| **AWDUR (ON)** | Vera Jones, Rheolwr Gwasanaethau Democratiaeth ac Iaith<br>Sarah Jones, Swyddog Cyfathrebu Aelodau a Staff |

**CEFNDIR**

1 Mae’r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth wedi trafod yr angen i geisio sicrhau diogelwch personol i chi eich hun yn eich rôl fel Cynghorydd mewn swydd gyhoeddus yn y gorffennol. Mae Cymdeithas Llywodraeth Cymru (CLlC) wedi cyflwyno canllawiau o’r blaen, gan ganolbwyntio yn bennaf ar ddiogelwch personol a sut i ymateb i fygythiadau ar gyfryngau cymdeithasol.

2 Mewn byd lle mae nifer cynyddol o bobl sy’n ymwneud â democratiaeth (ar lefel genedlaethol neu leol) yn nodi eu bod yn dioddef bygythiadau, mae CLlC wedi diweddaru eu canllawiau ar gyfer Cynghorwyr. Maent yn cynnwys mesurau ymarferol y gall Cynghorwyr <u>ac ymgeiswyr</u> eu hystyried er mwyn diogelwch personol.

3 Mae’r canllaw yn diffinio bygwth cyhoeddus fel a ganlyn:

“*geiriau ac/neu ymddygiad gyda’r bwriad, neu sy’n debygol o rwystro neu atal cyfranogiad mewn dadlau cyhoeddus, a allai arwain at unigolyn i ddymuno tynnol ôl o fywyd cyhoeddus.*”

4 Bydd pawb yn cydnabod fod trafod, dadlau a meddu ar wahanol farn yn rhan o ddemocratiaeth iach. Nodir yn y canllawiau mai “*Bwriad cam-drin, bygwth cyhoeddus a bygythiadau yw tanseilio gwneud penderfyniadau democrataidd trwy godi ofn ar y sawl sy’n ei gynrychioli.*”

5 Felly mae’n amserol fod y pwyllgor yn edrych ar y mater hwn er mwyn ystyried pa gamau y gall unigolion eu cymryd i ddiogelu eu hunain, eu man gwaith (ee eu

cartref) a'r bobl o'u cwmpas a beth i'w wneud os ydynt yn teimlo o dan fygythiad. Gellir gweld canllaw CLlC yn llawn ar y ddolen.

6 Yn ogystal, mae'n bwysig i'r Pwyllgor ystyried sut i godi ymwybyddiaeth o'r canllawiau hyn ymysg eu cyd-aelodau. Yn naturiol bydd y canllaw yn cael ei osod ar y porth aelodau fel ei fod ar gael i bob Aelod.

7 Noder fod saith prif bennod i'r canllaw, ac felly gellir ystyried creu rhaglen o saith prif neges i'w gyhoeddi dros gyfnod penodol o amser. Bydd hyn yn;

- Osgoi boddi cynghorwyr mewn gormod o wybodaeth ar y tro
- Annog gwell ymwybyddiaeth o bob pwnc penodol yn ei dro
- Rhoi wyth cyfle i godi ymwybyddiaeth gyffredinol o'r maes

Mae'r saith "pennod" fel a ganlyn:

| **Neges** |
|---|
| Cyngor cyffredinol i ddelio efo bygythiadau / cyflwyno'r prosiect |
| Diogelwch personol |
| Cynghorwyr a chyfryngau cymdeithasol |
| Delio efo ymddygiad amhriodol ar gyfryngau cymdeithasol |
| Y gyfraith |
| Cefnogi cynghorwyr |
| Cyfathrebu efo trigolion, cydweithwyr a swyddogion |

Byddai'r Cynghorwyr yn derbyn gwybodaeth drwy safle newyddion Rhaeadr, gyda negeseuon Facebook ac e-bost i'w cyfeirio at y negeseuon hynny.

8 Gofynnir i aelodau'r pwyllgor:

- Ystyried canllawiau Cymdeithas Llywodraeth Cymru "Canllaw'r Cynghorwyr i drafod bygwth"
- Ystyried codi ymwybyddiaeth cyd-aelod o'r canllawiau